



Department
for Environment
Food & Rural Affairs

Cynigion i wahardd y defnydd o beli micro plastig mewn cynhyrchion cosmetig a chynhyrchion gofal personol yn y DU a chais am dystiolaeth am ffynonellau eraill o ficroblastigau sy'n mynd i mewn i'r amgylchedd morol

Rhagfyr 2016



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba
gov.scot



Department of
Agriculture, Environment
and Rural Affairs
www.daera-ni.gov.uk



(h) Hawlfraint y Goron 2016

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f.3. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu anfonwch neges e-bost i PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn

[insert contact details]

PB [insert PB number]

www.gov.uk/defra

Cynnwys

Crynodeb	1
Rhan 1: Esbonio'r ymgynghoriad	4
Rhan 2: Cynigion ar gyfer gwahardd peli micro plastig mewn cynhyrchion cosmetig a chynhyrchion gofal personol	7
Cefndir.....	7
Cynigion ar gyfer gwaharddiad.....	8
Eglurhad	9
Gwaharddiadau tebyg mewn gwledydd eraill	9
Cwestiynau'r ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer gwaharddiad.....	10
Rhan 3: Casglu tystiolaeth i lywio camau gweithredu'r DU i fynd i'r afael â llygredd microblastigau morol yn y dyfodol.....	11
Cefndir.....	11
Cwestiynau'r ymgynghoriad am ffynonellau eraill o lygredd microblastigau morol posibl gan gynnwys gweddillion plastig mwy o faint yn y môr sy'n ymrannu'n ficroblastigau, megis poteli plastig a deunydd pecynnu arall.....	12

Crynodeb

<p>Pwnc yr ymgynghoriad hwn</p>	<p>Cynigion i wahardd gweithgynhyrchu a gwerthu cynhyrchion cosmetig a chynhyrchion gofal personol sy'n cynnwys peli micro plastig a allai niweidio'r amgylchedd morol.</p> <p>Mae'r ymgynghoriad hefyd yn ceisio casglu tystiolaeth am yr effaith y mae peli micro plastig a geir mewn cynhyrchion eraill yn ei chael ar yr amgylchedd, er mwyn llywio camau gweithredu'r DU i ddiogelu'r amgylchedd morol yn y dyfodol.</p>
<p>Cwmpas yr ymgynghoriad hwn</p>	<p>Nod yr ymgynghoriad hwn yw ymdrin â pheli micro plastig a allai niweidio'r amgylchedd morol.</p> <p>Nid yw'n ceisio sylwadau ar fathau ehangach o sbwriel môr megis mân ronynnau o ysbwriel nad yw'n blastig neu eitemau mawr o sbwriel môr.</p>
<p>Cwmpas daearyddol</p>	<p>Byddai'r cynigion yn cwmpasu'r DU, gan gynnwys Cymru, yr Alban a Gogledd, a byddent yn gymwys iddi. Nid ydynt yn gymwys i diriogaethau tramor.</p>
<p>I</p>	<p>Mae'r ymgynghoriad hwn yn arbennig o berthnasol i'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • grwpiau neu unigolion sy'n defnyddio'r môr at unrhyw ddiben, neu sydd â buddiant ynddo, gan gynnwys defnyddwyr busnes y môr. • pobl sy'n defnyddio cynhyrchion sy'n cynnwys peli micro plastig a'r busnesau hynny sy'n gyfrifol am weithgynhyrchu a gwerthu'r cynhyrchion hynny • busnesau sy'n defnyddio microblastigau sylfaenol neu sy'n creu microblastigau eilaidd • cynhyrchwyr, gweithgynhyrchwyr, ailbroseswyr a manwerthwyr deunydd pecynnu plastig • grwpiau buddiant cenedlaethol a lleol megis sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol a hamdden a ffederasiynau diwydiannau • llywodraethau mewn gwladwriaethau eraill a all fod yn ystyried eu gwaharddiadau eu hunain ar beli micro plastig mewn cynhyrchion cosmetig a chynhyrchion gofal personol • sefydliadau ymchwil academaidd
<p>Y corff sy'n gyfrifol am yr ymgynghoriad</p>	<p>Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal gan Is-adran y Môr Defra ar ran Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig.</p>
<p>Hyd</p>	<p>Dyddiad dechrau'r ymgynghoriad: 20 Rhagfyr 2016</p>

	Y dyddiad y daw i ben: 28 Chwefror 2017
Ymholiadau	<p>Yn ystod yr ymgynghoriad, os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu os byddwch am gael copïau caled o'r dogfennau, cysylltwch â: marinelitter@defra.gsi.gov.uk Ceir gwybodaeth am y mesurau y mae Llywodraeth y DU eisoes yn eu cymryd i fynd i'r afael â sbwriel môr yn Strategaeth Forol Rhan Tri: Rhaglen y DU o Fesurau, yn:</p> <p>https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/486623/marine-strategy-part3-programme-of-measures.pdf</p>
Sut i ymateb	<p>Gellir cyflwyno ymatebion ysgrifenedig i:</p> <p>Marine Division Area 8B Millbank c/o Nobel House 17 Smith Square London SW1P 3JR</p> <p>E-bost: marinelitter@defra.gsi.gov.uk</p> <p>Neu gellir eu cwblhau ar-lein drwy fynd i https://consult.defra.gov.uk/marine/microbead-ban-proposals</p> <p>Mae'n rhaid cyflwyno ymatebion erbyn 28 Chwefror 2017.</p>
Ar ôl yr ymgynghoriad	<p>Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori byddwn yn crynhoi'r ymatebion ac yn rhoi'r crynodeb hwn ar ein gwefan yn www.gov.uk/government/publications?publication_filter_option=consultations.</p> <p>Bydd copïau o'r ymatebion ar gael i'r cyhoedd ar gais. Os nad ydych am i'ch ymateb - gan gynnwys eich enw, manylion cyswllt ac unrhyw wybodaeth bersonol arall - gael ei gyhoeddi, dylech nodi hynny'n glir yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb i'r ymgynghoriad. Dylech egluro pam mae angen i'ch manylion gael eu cadw'n gyfrinachol. Byddwn yn ystyried eich rhesymau os bydd rhywun yn gofyn am y wybodaeth hon o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth. Ond, oherwydd y gyfraith, ni allwn addo y byddwn bob amser yn gallu cadw'r manylion hynny'n gyfrinachol. Noder, os yw eich cyfrifiadur yn cynnwys ymwadiad cyfrinachedd yn awtomatig, na fydd hynny'n cyfrif yn gais am gyfrinachedd.</p>
Cydymffurfiaeth	Mae'r ymgynghoriad hwn yn unol ag Egwyddorion Ymgynghori'r

ag Egwyddorion Ymgynghori	llywodraeth. Gellir eu gweld yn www.cabinetoffice.gov.uk/resource-library/consultation-principles-guidance .
Cyrraedd y cam hwn	<p>Mae Llywodraeth y DU yn cymryd ystod eang o gamau i ddiogelu'r amgylchedd morol rhag sbwriel môr, fel y nodir yn Strategaeth Forol y DU Rhan Tri (https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/486623/marine-strategy-part3-programme-of-measures.pdf). Mae astudiaeth ddiweddar gan Defra o'r potensial i beli micro plastig niweidio'r amgylchedd morol wedi darparu tystiolaeth sy'n ategu'r angen i Lywodraeth y DU gynnig mesurau pellach i fynd i'r afael â microblastigau, gan gynnwys peli micro plastig.</p> <p>http://randd.defra.gov.uk/Default.aspx?Menu=Menu&Module=More&Location=None&ProjectID=17683&FromSearch=Y&Publisher=1&SearchText=5416&SortString=ProjectCode&SortOrder=Asc&Page=g=10#Description</p>
Ymgysylltu blaenorol	<p>O dan Gynllun Gweithredu Rhanbarthol Confensiwn Oslo a Paris er Diogelu Amgylcheddol Morol Gogledd-ddwyrain yr Iwerydd (OSPAR), bu'r DU a Phartion Contractio eraill yn gweithio gyda'r diwydiant cynhyrchion cosmetig, a arweinir gan gorff y diwydiant Cosmetics Europe, ar gytundeb gwirfoddol i roi terfyn ar y defnydd o ficroblastigau fel cyfansoddyn mewn cynhyrchion cosmetig a chynhyrchion gofal personol.</p> <p>Yn ystod y misoedd diwethaf bu'r DU yn ymgysylltu â chorff y diwydiant cynhyrchion cosmetig yn y DU, sef y Cosmetic, Toiletry and Perfumery Association (CTPA); a gyda sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol a'r byd academaidd, er mwyn deall yr achos dros wahardd peli micro plastig mewn cynhyrchion cosmetig a chynhyrchion gofal personol a'r opsiynau ar gyfer gwneud hynny a'r potensial i ymdrin â chynhyrchion eraill sy'n cynnwys peli micro plastig.</p>

Rhan 1: Esbonio'r ymgynghoriad

Diffinnir sbwriel môr fel unrhyw ddeunydd solet sydd wedi'i waredu'n fwriadol neu sydd wedi'i golli'n anfwriadol ar draethau ac ar lannau neu ar y môr, gan gynnwys deunyddiau a gludir i'r amgylchedd morol o'r tir mewn afonydd, drwy systemau draenio neu systemau carthffosiaeth neu ar y gwynt¹. Mae'n cynnwys deunydd solet parhaus, deunydd solet wedi'i weithgynhyrchu neu ddeunydd solet wedi'i brosesu. Daw sbwriel môr o amrywiaeth o ffynonellau ar y môr ac ar y tir.

Nododd asesiad cychwynnol 2012 ar gyfer Strategaeth Forol y DU Rhan Un² fod rhai problemau yn gysylltiedig â sbwriel môr yn holl ranbarthau moroedd y DU lle y cynhelir arolygon systematig o ddwysedd sbwriel ar draethau. At hynny, mae tystiolaeth gynyddol y gall y sbwriel sy'n cronni yn ein hamgylcheddau dyfrol niweidio ecosystemau morol ac effeithio ar gymunedau arfordirol. Gall anifeiliaid morol fwyta eitemau llai o faint fel gronnau o ficroblastigau, gan niweidio eu hiechyd. Gall eitemau mwy o faint orchuddio cynefinoedd, niweidio twristiaeth a pheri risg ddifrifol i fywyd a bywoliaeth drwy achosi i longau dorri i lawr ar y môr a gall anifeiliaid fynd ynghlwm ynddynt.

Er mwyn mynd i'r afael â sbwriel dyfrol mae angen i lywodraethau, busnesau a chymunedau gydweithio er mwyn lleihau faint o sbwriel sy'n mynd i mewn i'r amgylchedd morol o ffynonellau ar y tir ac ar y môr a chael gwared ar sbwriel sydd eisoes yno. Mae Strategaeth Forol y DU Rhan Tri (2015)³ yn nodi cyfres o fesurau sy'n bodoli eisoes a mesurau arfaethedig i fynd i'r afael â sbwriel môr. Mae Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig hefyd yn ariannu gweithgarwch monitro sbwriel ac yn chwarae rôl weithredol o ran rhoi cyngor a dylanwadu ar ymchwil ac addysg sbwriel môr a microblastigau ac maent yn aelodau o'r Rhwydwaith Gweithredu ar Sbwriel Môr, sy'n gweithio gyda rhanddeiliaid o wahanol sectorau i godi ymwybyddiaeth o'r ffynonellau a'r problemau sy'n gysylltiedig â sbwriel môr. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i Cadwch Gymru'n Daclus, sy'n gweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat i helpu grwpiau cymunedol, trigolion, unigolion, ysgolion a busnesau i godi ymwybyddiaeth o sbwriel môr a chynnal digwyddiadau glanhau traethau. Mae Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig hefyd yn gweithio gyda chwmnïau dŵr i leihau difrifoldeb gweddillion sy'n gysylltiedig â charthion a gorlifau heb eu trin.

Gan fod sbwriel môr yn broblem drawsffiniol, mae cydweithredu rhyngwladol yn bwysig i fynd i'r afael â'r mater hwn yn effeithiol. Mae'r DU yn chwarae rhan weithredol yn OSPAR sy'n fodd i ni gydweithio â gwledydd cyfagos i fynd i'r afael â sbwriel môr. Drwy OSPAR rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu Rhanbarthol ar gyfer Sbwriel Môr⁴, sy'n cynnwys

¹ <http://www.ospar.org/documents?v=34422>

² www.gov.uk/government/publications/marine-strategy-part-one-uk-initial-assessment-and-good-environmental-status

³ <https://www.gov.uk/government/publications/marine-strategy-part-three-uk-programme-of-measures>

⁴ <http://www.ospar.org/documents?v=34422>

camau gweithredu i fynd i'r afael â ffynonellau allweddol sbwriel a diwydiannau sy'n cynhyrchu sbwriel. Mae'r DU hefyd yn chwarae rhan weithredol mewn fforymau sbwriel môr rhyngwladol eraill, gan gynnwys G7 a Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig.

Rydym yn parhau i gefnogi ymchwil a rhoi mesurau ychwanegol ar waith er mwyn diogelu'r amgylchedd morol. Bellach, mae pob rhan o'r DU wedi cyflwyno ardoll ar fapiau siopa untro. Mae'r ardollau hyn wedi llwyddo i leihau nifer y bagiau plastig sy'n cael eu defnyddio yn sylweddol ac wedi codi miliynau o bunnau at achosion da. Mae strategaethau sbwriel môr eisoes ar gael megis Strategaeth Sbwriel Môr yr Alban⁵ a Strategaeth Sbwriel Môr Gogledd Iwerddon⁶. Mae Defra yn datblygu Strategaeth Sbwriel Genedlaethol i Loegr, sy'n cwmpasu sbwriel dyfrol a sbwriel môr yn ogystal â sbwriel tir. Bydd y Strategaeth Sbwriel Genedlaethol yn hyrwyddo ffyrdd fforddiadwy a graddadwy y gellir eu hatgynhyrchu o ddylanwadu ar ymddygiad taflu sbwriel.

Mae pryder cynyddol ynghylch microblastigau yn yr amgylchedd morol. Mae microblastigau yn ddarnau plastig sy'n llai na 5mm ac maent yn llygrydd cyffredin iawn yn ein cefnforoedd. Ymhlith y ffynonellau o ficroblastigau mae ffibrau o decstilau synthetig, traul cynhyrchion plastig megis teiars, rhwydi pysgota, rhaffau a charpedi, plastigau mewn paentiau a farneisiau, peli micro plastig a ddefnyddir fel 'exfoliants' mewn cynhyrchion cosmetig a chynhyrchion gofal personol, peledi cyn cynhyrchu ('nurdles') ac eitemau mawr o weddillion plastig sy'n ymrannu ac yn diraddio'n ddarnau llai o faint⁷. Ar ôl iddynt gael eu rhyddhau i'r amgylchedd mae'n amhosibl eu cael yn ôl.

Mae sail dystiolaeth gynyddol sy'n dangos bod microblastigau yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd. Nid ydynt yn bioddiraddio, maent yn cronni yn yr amgylchedd morol, gallant amsugno cemegion a phathogenau gwenwynig a gallant gael eu llyncu gan organebau morol ac, felly, fynd i mewn i'r gadwyn fwyd. Yn benodol, mewn prosiect diweddar a ariannwyd gan Defra ac a gynhaliwyd gan Brifysgol Plymouth i astudio effeithiau microblastigau yn yr amgylchedd morol, dangosodd arbrofion labordy y canlynol:

- gall organebau morol lyncu gronynnau plastig a'u trosglwyddo ar hyd y gadwyn fwyd
- gallai llyncu microblastigau achosi 'niwed', gan leihau gallu organeb forol i brosesu bwyd, ond dim ond mewn crynodiadau sy'n cyfateb i draethlinau halogedig iawn;
- at hynny, gall llygryddion cemegol lyncu wrth ronynnau plastig a chael eu cludo i mewn i organebau morol a gallent achosi niwed, ond mae'r llwybr hwn yn annhebygol o wneud cyfraniad mawr at feichiau corff yn gyffredinol, o gymharu â llygryddion a drosglwyddir mewn bwyd neu ddŵr môr halogedig

⁵ <http://www.gov.scot/Resource/0045/00457889.pdf>

⁶ https://www.daera-ni.gov.uk/sites/default/files/publications/doe/marine-policy-ni-marine-litter-strategy-2014_0.pdf

⁷ <http://www.eunomia.co.uk/report-tag/microplastics/>

- gall y crynodiadau o ychwanegion cemegol a ymgorfforir mewn plastigau yn ystod y broses weithgynhyrchu fod yn uwch na'r crynodiadau o lygryddion cemegol sy'n glynu wrth y plastig yn yr amgylchedd morol, a gallent gael eu llyncu

At hynny, yn ddiweddar cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol ymchwiliad i effaith amgylcheddol microblastigau yn yr amgylchedd morol. Roedd ei adroddiad⁸ yn cynnwys nifer o argymhellion i Lywodraeth y DU fynd i'r afael â ffynonellau allweddol o lygredd microblastigau.

Am y ddwy flynedd ddiwethaf buom yn gweithio gydag OSPAR a'r diwydiant i fynd i'r afael ag amrywiaeth o ffynonellau o lygredd microblastigau morol.

Mae'r diwydiant cynhyrchion cosmetig yn arbennig eisoes wedi cymryd rhai camau pwysig i leihau ei gyfraniad at sbwriel môr. Weithiau mae cynhyrchion cosmetig a chynhyrchion gofal personol yn cynnwys peli micro plastig at ddibenion cael gwared ar groen marw. Gan weithio ag OSPAR mae'r diwydiant cynhyrchion cosmetig, o'i wirfodd, wedi cymryd camau i roi'r gorau i ddefnyddio peli micro plastig ac ymchwilio i opsiynau amgen addas. Bydd mwy na 72% o gwmnïau cynhyrchion cosmetig mawr wedi rhoi'r gorau i werthu cynhyrchion cosmetig sy'n cynnwys peli micro plastig erbyn 2017⁹.

Bellach, rydym am atgyfnerthu'r ymrwymiad pwysig hwn, sicrhau chwarae teg i'r diwydiant a meithrin hyder defnyddwyr drwy gyflwyno deddfwriaeth i wahardd gwerthu a gweithgynhyrchu cynhyrchion cosmetig a chynhyrchion gofal personol sy'n cynnwys peli micro plastig a allai niweidio'r amgylchedd morol. Ar yr un pryd rydym am gasglu tystiolaeth am yr effaith y mae peli micro plastig a geir mewn cynhyrchion eraill yn ei chael ar yr amgylchedd, er mwyn llywio camau gweithredu'r DU i ddiogelu'r amgylchedd morol yn y dyfodol.

Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?

Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn ar ein cynigion i wahardd gwerthu a gweithgynhyrchu cynhyrchion cosmetig a chynhyrchion gofal personol sy'n cynnwys peli micro plastig a allai niweidio'r amgylchedd morol. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn ceisio casglu tystiolaeth am yr effaith y mae peli micro plastig a geir mewn cynhyrchion eraill yn ei chael ar yr amgylchedd, er mwyn llywio camau gweithredu'r DU i ddiogelu'r amgylchedd morol yn y dyfodol.

Pwy fydd â diddordeb mewn ymateb?

1. Ymgynghoriad cyhoeddus yw hwn ac mae croeso i bawb sydd â diddordeb roi sylwadau. Dylai'r ymgynghoriad fod o ddiddordeb arbennig i ddefnyddwyr y cynhyrchion, busnesau sy'n ymwneud â gwerthu a gweithgynhyrchu cynhyrchion cosmetig a chynhyrchion gofal personol sy'n cynnwys peli micro plastig, eu

⁸http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201617/cmselect/cmenvaud/179/17902.htm?utm_source=179&utm_medium=fullbullet&utm_campaign=modulereports

⁹ The Cosmetic, Toiletry & Perfumery Association Limited (CTPA): Gohebiaeth Bersonol

cymdeithasau/cyrff masnach a sefydliadau anllywodraethol sy'n pryderu ynghylch statws yr amgylchedd morol.

Dweud eich dweud

Dylech gyflwyno ymatebion neu ymholiadau erbyn 28 Chwefror 2017 fan bellaf naill ai'n ysgrifenedig i'r Marine Litter Policy Team, Area 8B Millbank, c/o Nobel House, 17 Smith Square, London, SW1P 3JR; drwy anfon neges e-bost i marinelitter@defra.gsi.gov.uk; neu ar-lein yn <https://consult.defra.gov.uk/marine/microbead-ban-proposals>. Oni fyddwch yn gofyn yn benodol i'ch ymateb gael ei drin yn gyfrinachol, mae'n bosibl y caiff ymatebion eu cyhoeddi.

Rhan 2: Cynigion ar gyfer gwahardd peli micro plastig mewn cynhyrchion cosmetig a chynhyrchion gofal personol

Cefndir

Mae peli micro plastig (gronynnau bach o blastig) yn gynhwysyn cyffredin mewn llawer o gynhyrchion cosmetig a chynhyrchion gofal personol megis sgrwbwyr wyneb a phastau dannedd, yn ogystal â phowdrau golchi a chynhyrchion glanhau cartrefi ac mewn prosesau chwythu diwydiannol lle y caiff deunyddiau sgraffiniol gan gynnwys peli micro plastig eu gyrru o dan bwysedd uchel er mwyn cael gwared ar ddyddodion arwyneb megis paent. Cânt eu golchi i lawr y draen ond maent yn rhy fach i gael eu hidlo allan yn llwyr mewn systemau trin carthion ac, felly, caiff cyfran ei golchi allan i'r amgylchedd dyfrol. Awgrymir bod cynifer â 100,000 o beli micro plastig fesul cawod yn cael eu golchi i mewn i'n moroedd¹⁰. Mae tystiolaeth gynyddol bod microblastigau yn achosi niwed i anifeiliaid morol ac y gallant fynd i mewn i'r gadwyn fwyd¹¹.

Credir bod peli micro plastig o gynhyrchion gofal personol yn cyfrif am ganran fach iawn o gyfanswm y microblastigau sy'n mynd i mewn i'r amgylchedd morol, gydag amcangyfrifon yn amrywio o 0.01% i 4.1%. Felly, dim ond effaith fach ar y sefyllfa amgylcheddol o ran microblastigau y disgwylid i waharddiad ar beli micro plastig mewn cynhyrchion gofal personol yn y DU yn unig ei chael. Fodd bynnag, cam pwysig yw hwn am nad yw peli

¹⁰ Napper, I.E., et al. Characterisation, quantity and sorptive properties of microplastics extracted from cosmetics. *Mar. Pollut. Bull.* (2015), <http://dx.doi.org/10.1016/j.marpolbul.2015.07.029>

11

<http://randd.defra.gov.uk/Default.aspx?Menu=Menu&Module=More&Location=None&ProjectID=17683&FormSearch=Y&Publisher=1&SearchText=5416&SortString=ProjectCode&SortOrder=Asc&Paging=10#Description>

micro plastig, megis microblastigau eraill, yn bioddiraddio ac, felly, maent yn cronni yn yr amgylchedd. Maent hefyd yn opsiynau amgen llai niweidiol, addas.

Bydd camau a gymerir gan y Llywodraeth yn sicrhau chwarae teg i'r diwydiant, yn mynd i'r afael ag anghysondeb, yn meithrin hyder defnyddwyr ac yn atal cynhyrchion newydd sy'n cynnwys darnau bach iawn o blastig rhag mynd i mewn i'r amgylchedd morol.

Mewn ymateb i hyn cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynlluniau i wahardd gwerthu a gweithgynhyrchu cynhyrchion cosmetig a chynhyrchion gofal personol sy'n cynnwys peli micro plastig a allai niweidio'r amgylchedd morol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar ein cynigion ar gyfer gwahardd cynhyrchion o'r fath ym mhob rhan o'r DU.

Ar yr un pryd, rydym yn cydnabod y gallai fod ffynonellau eraill o beli micro plastig a microffibrau sy'n mynd i mewn i'r amgylchedd morol. Felly, rydym yn manteisio ar y cyfle hwn i ofyn am dystiolaeth am yr effaith y mae peli micro plastig a geir mewn cynhyrchion eraill yn ei chael ar yr amgylchedd, er mwyn llywio camau gweithredu'r DU i ddiogelu'r amgylchedd morol yn y dyfodol.

Cynigion ar gyfer gwaharddiad

Cwmpas y gwaharddiad arfaethedig

Dengys y dystiolaeth bresennol fod microblastigau, gan gynnwys peli micro plastig, yn niweidio'r amgylchedd morol. Gwyddom hefyd fod peli micro plastig a ddefnyddir mewn cynhyrchion rinsio i ffwrdd (e.e. geliau cawod, sgrwbwyr wyneb a phastau dannedd) yn cael eu golchi i lawr y draen ac yn mynd i mewn i'r system garthffosydd a bod cyfran yn mynd i mewn i'r amgylchedd morol lle maent yn cyfrannu at lwyth llygredd microblastigau yn gyffredinol. Mae opsiynau amgen addas ar gael yn hawdd.

Ar hyn o bryd, nid oes gennym dystiolaeth debyg am ronynnau o ficroblastigau o gynhyrchion cosmetig a chynhyrchion gofal personol eraill (megis colur ac eli haul) nac o gynhyrchion eraill sy'n cynnwys peli micro plastig megis cynhyrchion glanhau cartrefi a chynhyrchion glanhau diwydiannol. Mae ail ran yr ymgynghoriad hwn yn gofyn am dystiolaeth bellach am yr effaith y mae microblastigau a geir mewn cynhyrchion eraill o'r fath ei chael ar yr amgylchedd.

Mae ein cynigion presennol fel a ganlyn:

- a. **dylem wahardd gweithgynhyrchu a gwerthu cynhyrchion cosmetig a chynhyrchion gofal personol sy'n cynnwys peli micro plastig yn y DU (gan gynnwys pob tiriogaeth ddatganoledig).**
- b. **byddai'r gwaharddiad yn gymwys i gynhwysion microblastigau solet sy'n llai na 5mm ym mhob dimensiwn a ddefnyddir fel cynhwysion mewn cynhyrchion cosmetig rinsio i ffwrdd a chynhyrchion gofal personol gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, sgrwbwyr sy'n cael gwared ar groen marw, geliau cywod a phastau dannedd.**

- c. yn Lloegr, disgwylir i'r ddeddfwriaeth ddod i rym erbyn 1 Hydref 2017, sef y dyddiad dechrau cyffredin olaf yn 2017 ar gyfer rheoliadau sy'n effeithio ar fusnesau. Byddwn yn ceisio cydgysylltu ein dull gweithredu â'r Gweinyddiaethau Datganoledig a fydd yn cyflwyno deddfwriaeth yn unol â'u prosesau a'u hamserlenni deddfwriaethol eu hunain.
- d. yn Lloegr, disgwylir i'r gwaharddiad ar weithgynhyrchu cynhyrchion o'r fath fod yn gymwys o 1 Ionawr 2018 a disgwylir i'r gwaharddiad ar eu gwerthu fod yn gymwys o 30 Mehefin 2018. Byddwn yn ceisio cydgysylltu ein dull gweithredu â'r Gweinyddiaethau Datganoledig a fydd yn cyflwyno deddfwriaeth yn unol â'u prosesau a'u hamserlenni deddfwriaethol eu hunain.
- e. caiff y ddeddfwriaeth ei datblygu mewn cydweithrediad â'r gweinyddiaethau datganoledig a chyflwynir is-ddeddfwriaeth i roi'r gwaharddiad arfaethedig ar waith ledled y DU gyfan. Disgwylir i'r cyfryw ddeddfwriaeth gael ei gwneud gan bob gweinyddiaeth o ganlyniad i'r setliadau datganoli. Disgwylir i'r ddeddfwriaeth weithredu gael ei chyhoeddi cyn iddi gael ei gwneud ac, felly, bydd y rhai â diddordeb yn gallu cyflwyno sylwadau arni.
- f. yn Lloegr, cynigir y bydd y polisi'n cael ei orfodi'n ymarferol drwy sancsiynau sifil a nodir yn rhan 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 (ond byddai hyn yn gofyn am greu trosedd y gellid ei chosbi â dirwy, er mwyn hwyluso defnyddio Deddf 2008). Fel rhan o'r ymgynghoriad, rydym yn ceisio barn pobl ar y ffordd fwyaf effeithiol a chymesur o gyflawni gorfodaeth sifil o'r fath. Bydd y gweinyddiaethau datganoledig yn sefydlu systemau gorfodi priodol a byddent yn croesawu barn pobl ar y mater hwn.

Eglurhad

Mae'r gwaharddiad hwn yn diogelu'r amgylchedd morol ac yn lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â microblastigau a difrifoldeb effeithiau microblastigau; yn cefnogi'r diwydiant cynhyrchion cosmetig drwy sicrhau chwarae teg a bod pob cwmni yn cyrraedd yr un safonau; ac yn cynyddu hyder y cyhoedd na fydd cynhyrchion yn llygru'r môr nac yn niweidio'r anifeiliaid na'r planhigion a geir ynddo.

Mae gwaharddiad ar weithgynhyrchu yn effeithio ar weithgarwch allforio ac mae gwaharddiad ar werthu yn effeithio ar weithgarwch mewnfario at ddibenion masnachol.

Mae'r gwaharddiad yn cael ei gyflwyno fesul cam er mwyn rhoi digon o amser i gwmnïau bach a chanolig gydymffurfio â gofynion fel yr amlinellir.

Gwaharddiadau tebyg mewn gwledydd eraill

Mae sawl gwlad arall eisoes wedi gwahardd peli micro plastig neu maent yn bwriadu eu gwahardd, gan gynnwys UDA.

Mae Deddf Dyfroedd Di-Beli Micro Plastig 2015 UDA yn diffinio pêl ficro blastig fel “any solid plastic particle that is less than five millimeters in size and is intended to be used to exfoliate or cleanse the human body or any part thereof” am mai'r rhain yw'r cynhyrchion sy'n mynd i mewn i'r amgylchedd morol. Mae'r diffiniadau a geir yn y mesurau deddfwriaethol mewn sawl talaith yn UDA gan gynnwys Califfornia, Efrog Newydd ac Illinois, yn nodi peli micro plastig a ddefnyddir i gael gwared ar groen marw neu lanhau mewn cynhyrchion rinsio i ffwrdd.

Ar ôl i'r DU gyhoeddi gwaharddiad ar y cynhyrchion hyn, mae cyhoeddiadau tebyg wedi'u gwneud mewn sawl gwlad arall. Mae'r Eidal bellach wedi cymeradwyo bil yn y senedd i wahardd gweithgynhyrchu a gwerthu peli micro plastig o 1 Ionawr 2019. Yn yr un modd, mae Ffrainc wedi cyhoeddi y bydd cynhyrchion cosmetig rinsio i ffwrdd ar gyfer cael gwared ar groen marw neu lanhau sy'n cynnwys gronynnau plastig solet wedi'u gwahardd o fis Ionawr 2018 ymlaen.

Ymhlith y gwledydd eraill sydd bellach yn ceisio gwahardd peli micro plastig mae Iwerddon, De Korea, Taiwan, India ac Awstralia.

Cwestiynau'r ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer gwaharddiad

- a. A yw ein cynigion ar gyfer gwaharddiad yn addas at y diben? Os nad ydynt, eglurwch pam. Sut y gellid geirio gwaharddiad yn wahanol er mwyn sicrhau y byddai'n lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â gronynnau o ficroblastigau o gynhyrchion gofal personol a chynhyrchion cosmetig sy'n cyrraedd yr amgylcheddol morol yn y ffordd fwyaf effeithiol?
- b. Mae'r gwaharddiad arfaethedig hwn yn gymwys i gynhyrchion cosmetig a chynhyrchion gofal personol rinsio i ffwrdd sy'n cynnwys sgrwbwyr ar gyfer cael gwared ar groen marw, geliau cawod a phastau dannedd, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt. A yw'r categori hwn yn briodol? Os nad ydyw, pa gynhyrchion y dylai'r gwaharddiad fod yn gymwys iddynt, gan gofio mai diben y gwaharddiad yw diogelu'r amgylchedd morol? Rhowch dystiolaeth i ategu eich awgrymiadau.
- c. A ddylid eithrio unrhyw gynhyrchion rhag y gwaharddiad? Os felly, rhowch dystiolaeth i ategu eich awgrymiadau.
- d. Os na fwriedir i gynhyrchion fynd i lawr y draen, ond bod modd eu gwaredu fel hyn o hyd, pa ymyriadau neu rybuddion sy'n briodol i ddiogelu'r amgylchedd morol?
- e. Sut y dylid monitro cydymffurfiaeth â'r gwaharddiad?

- f. Nodir ein cynigion ar gyfer gorfodi ym mhwynt (f) ar dudalen 9. Byddem yn croesawu sylwadau ar ein dull gweithredu arfaethedig, awgrymiadau ar gyfer dulliau gweithredu amgen a barn ar y ffordd fwyaf effeithiol a chymesur o orfodi'r gwaharddiad. Mae manylion am y mathau o sancsiynau sifil sydd ar gael wedi'u nodi yn adrannau Sancsiynau Sifil Rhan 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008, yn enwedig adrannau 39, 42 a 46. <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2008/13/notes/division/3/3>.
- g. Pa gostau a/neu gyfyngiadau y byddai'r diwydiant, gan gynnwys busnesau bach a chanolig (BBaChau), yn eu hwynebu wrth gydymffurfio â gwaharddiad aricroblastigau mewn cynhyrchion cosmetig a chynhyrchion gofal personol?
- h. I ba raddau y bydd y gwaharddiad yn effeithio ar fewnforion? Rhowch dystiolaeth i ategu eich awgrymiadau.
- i. Beth yw'r risgiau y bydd opsiynau amgen i beli micro plastig eu hunain yn cael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd? Os felly, sut y gellid osgoi'r risgiau hyn, eu lleihau neu eu lliniaru? Rhowch dystiolaeth i ategu eich awgrymiadau.
- j. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym?

Rhan 3: Casglu tystiolaeth i lywio camau gweithredu'r DU i fynd i'r afael â llygredd microblastigau morol yn y dyfodol

Cefndir

Mae microblastigau yn llygrydd dyfrol cyffredin a deuant o amrywiaeth o ffynonellau¹². Fe'u defnyddir yn fwriadol mewn rhai cynhyrchion a phrosesau, megis cynhyrchion cosmetig a chynhyrchion gofal personol, cynhyrchion glanhau cartrefi a chynhyrchion glanhau diwydiannol a chyfryngau chwythu diwydiannol. Gallant hefyd gael eu rhyddhau gan y broses o dreulio cynhyrchion plastig megis teiars, rhwydi plastig, carpedi, paentiau a farneisiau, drwy olchi tecstilau synthetig, yn ogystal â thrwy ddiraddio eitemau mawr o weddillion plastig, megis poteli plastig, sy'n ymrannu ac yn diraddio'n ddarnau llai o faint yn

¹² <http://www.eunomia.co.uk/report-tag/microplastics/>

yr amgylchedd morol. At hynny, efallai y cânt eu rhyddhau drwy golli peledi cyn cynhyrchu yn ddamweiniol ('nurdles') neu eu rheoli'n wael.

Mae Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eisoes wedi rhoi ystod eang o fesurau ar waith er mwyn mynd i'r afael â sbwriel môr, gan gynnwys microblastigau, fel y crynhoir yn Rhan 1. Mae rhai mesurau yn ymdrin â microblastigau yn uniongyrchol; mae mesurau eraill yn cyfrannu'n anuniongyrchol drwy gael gwared â gronynnau plastig mwy o faint, neu eu hatal rhag cael eu rhyddhau, gan eu hatal rhag diraddio'n ficroblastigau.

Mae Cynllun Gweithredu Rhanbarthol OSPAR yn cynnwys cam gweithredu i werthuso pob cynnyrch a phroses sy'n cynnwys microblastigau sylfaenol e.e. peli micro plastig a gweithredu, os yw'n briodol, i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd morol. Bydd y rhaglen waith hon yn helpu i lywio ymagwedd y DU tuag at ffynonellau eraill o beli micro plastig megis powdrau golchi, cynhyrchion glanhau cartrefi neu gyfryngau chwythu diwydiannol.

Nod yr ymgynghoriad hwn yw casglu tystiolaeth am yr effaith y mae peli micro plastig a geir mewn cynhyrchion eraill a ffynonellau eraill o ficroblastigau yn ei chael ar yr amgylchedd, er mwyn llywio camau gweithredu'r DU i ddiogelu'r amgylchedd morol yn y dyfodol drwy nodi mesurau wedi'u targedu, cymesur i fynd i'r afael â ffynonellau allweddol o lygredd plastigau yn y môr y gellir eu hosgoi.

Cwestiynau'r ymgynghoriad am ffynonellau eraill o lygredd microblastigau morol posibl gan gynnwys gweddillion plastig mwy o faint yn y môr sy'n ymrannu'n ficroblastigau, megis poteli plastig a deunydd pecynnu arall

- a. Nodir ffynonellau allweddol o ficroblastigau yn Rhan 3. Cefndir. A oes unrhyw rai ar goll neu'n amhriodol? Rhowch dystiolaeth i ategu eich ymateb.
- b. Pa ffynonellau o ficroblastigau sy'n peri'r risg fwyaf i'r amgylchedd morol? Rhowch dystiolaeth i ategu eich ymateb.
- c. Sut y dylid blaenoriaethu ffynonellau ar gyfer gweithredu? Esboniwch eich ymateb.
- d. Pa ymyriadau posibl y gellid eu datblygu er mwyn lleihau'r risgiau hyn a sut y gellid lleihau cost yr ymyriadau hyn? Pa effaith y mae'r ymyriadau hyn yn debygol o'i chael ar y diwydiant? Esboniwch eich ymateb.